Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

# Diogelwch a Phartneriaethau Cymunedol

## RHEOLWR DIOGELWCH YN Y CARTREF

**GRADD 11**

**37 Awr yr wythnos**

**CYFLOG: £34,723 – £35,411 y flwyddyn**

**RHIF SWYDD: 505184**

Mae'r swydd wag barhaol uchod wedi codi o fewn y tîm Diogelwch a Phartneriaethau Cymunedol . Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i arwain tîm perfformiad uchel mewn lleihau risg o fewn cymunedau De Cymru.

Bydd y rôl yn cynnwys rheoli gweithgareddau'r tîm Diogelwch yn y Cartref o ddydd i ddydd a chyfrannu at gynllunio a gweithredu gweithgareddau Diogelwch yn y Cartref ar draws y Gwasanaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo i ddatblygu a monitro cyflwyniadau lleihau risg, mentrau, cynlluniau, a rhaglenni i ystod eang o bartneriaid allanol.

Rhaid bod gan ddeilydd y swydd lwyddiannus brofiad blaenorol o arwain timau, cynnal cyllidebau, a chynorthwyo i gasglu, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth reoli. Bydd y gallu i gynllunio gweithgareddau niferus a chyfathrebu ag ystod eang o gynulleidfaoedd yn allweddol yn ogystal â gallu gwneud gwaith manwl ar gyfer gwaith sicrhau ansawdd.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad addas a nodir yn y Manyleb Person. Mae'n bosibl y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad cofnodion troseddol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriad trywdded yrru. Mae'n bosibl hefyd y bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol ac asesiad meddygol cyn penodi.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd polisi gweithio'n hyblyg mewn grym

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yng ngham y rhestr fer yn derbyn cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau ar lafar a chwestiynau

Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

cyfweliadau). Bydd trefniadau yn cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad ac fe all gynnwys Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid cwblhau Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio a ellir ei chyrchu drwy law ein gwefan: [www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/](www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/)

Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: [personel@decymru-tan.gov.uk](mailto:personel@decymru-tan.gov.uk)

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith. Sylwch nad yw hyn yn berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer swyddi gwag RDS.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Ieuan Dobbs drwy e-bostio i-dobbs@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer Ffurflenni Cais yw **13/10/23 12:00 hanner dydd.**

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG